

## CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI

### RHEOLAU MYNWENTYDD

#### **A. BEDDRODAU**

- 1 **Ni chaniateir i neb gau allan bedd mewn unrhyw ffordd.**
- 2 Ni chaniateir prynu hawl claddu.
- 3 Lle beddrod i fod wyth troedfedd o hyd, a pedair o led, ac wyth troedfedd o ddyfnder.
- 4 **Mae'r cyfrifoldeb am feddrod ar y sawl sydd a'r hawl i gladdu yno neu ei gynrychiolwyr.**
- 5 Bydd unrhyw un sy'n agor neu gau bedd yn gyfrifol am unrhyw niwed a achosir wrth wneud y gwaith.
- 6 Ni ellir dal y Cyngor yn gyfrifol am unrhyw niwed a achosir gan drydydd parti.
- 7 **Ni chaniateir palu'r tir na phlannu unrhyw blanhigyn ar feddrod. Ni chaniateir gosod cerrig man na chreu gerddi bach ar unrhyw feddrod mewn mynwent lawnt. Ni chaniateir gosod plac yn ychwanegol i'r garreg fedd, dim ond ar y garreg sylfaen wreiddiol yn bloc F, G a H.**
- 8 O fewn blwyddyn i'r gladdedigaeth ac wedi i'r pridd setlo ar y bedd, dylai lefel y pridd fod yr un lefel ar tir o'i gwmpas.
- 9 Mae beddrod newydd claddu llwch i ddilyn yn nhrefn y beddrodau ac i fod yn llathen sgwâr, dwy droedfedd o ddyfnder, gyda lle i uchafrif o bedair cist. Codir y taliadau arferol am brynu a chladdu.
- 10 Ni chaniateir agor bedd oni bai fod ei angen o fewn tri diwrnod.(ar gyfer claddedigaeth).
- 11 Mewn mynwent lawnt, y Cyngor Cymuned sydd yn torri'r glaswellt.
- 12 Dylai pob Ymgymerwr Angladdol roi copi o'r 'Crynodeb o Reolau Mynwentydd ar Gyfer Teuluoedd' i bob teulu sydd yn dymuno claddedigaeth lawn neu gladdedigaeth gweddillion amlosgedig yn unrhyw un o fynwentydd Cyngor Cymuned Llanllyfni.

#### **B. CLADDU**

- 1 Bydd yn angenrheidiol rhoddi Rhybudd o Gladdedigaeth i GLERC CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI yn ei chartref **dri diwrnod** o leiaf cyn y Gladdedigaeth, oddieithr mewn achosion o frys dan Dystysgrif Meddyg, ac mewn achosion felly yn unig y gellir derbyn Rhybudd ar y Sul. Dylid cyflwyno'r rhybudd drwy ddefnyddio'r ffurflen a gymeradwywyd gan y Cyngor Cymuned. **(Gweler Atodiad 3).**
- 2 Ni chaniateir claddu cyn 10 o'r gloch yn y bore, nac ar ôl 5 o'r gloch yn y prynhawn, oddigerth pan fo amgylchiadau yn galw am hynny. Ni ellir claddu ar y Sul hab ganiatâd ysgrifenedig y Cadeirydd a'r Clerc, a bydd yn rhaid wrth dystysgrif meddyg i gymeradwyo hyn.
- 3 Bydd yn ofynnol cyflwyno gyda'r Rhybudd i'r Clerc, ganiatâd ysgrifenedig prynwr unrhyw feddrod (neu gynrychiolydd awdurdodedig) cyn y gellir claddu mewn lle a brynwyd eisoes.
- 4 Bydd yn ofynnol talu pob costau i'r Clerc wrth roi Rhybudd am y Gladdedigaeth. **(Gweler Atodiad 1.).**
- 5 Bydd unrhyw un sy'n agor neu gau bedd yn gyfrifol am unrhyw niwed a achosir wrth wneud y gwaith ac mae'n orfodol iddynt feddu ar dystysgrif yswiriant dilys a digonol.
- 6 Mae cyfrifoldeb ar unrhyw un sydd yn claddu i drefnu cael ei offer ei hun.
- 7 Ni chaniateir gweithio (gan gynnwys agor a chau bedd) tra bod angladd yn cymryd lle yn y fynwent.
- 8 Gwaherddir ymgymerwyr rhag defnyddio J C B o fewn y mynwentydd. Ceir hawl i agor ac ail-agor gyda chloddwr bach (o dan 1 ½ tunnell) gan ddefnyddio synnwyr cyffredin. Os daw

cwynion i law bydd yr hawl yn cael ei dynnu'n ôl yn syth.

- 9 Mae pob ymgymerwr, neu ei asiant, sydd yn agor unrhyw fedd yn gyfrifol am dacluso ar ei ôl a chludo unrhyw bridd a cherrig na ddefnyddir i gau'r bedd **o'r fynwent** o fewn wythnos i'r angladd. Os na wneir hyn, gall y Cyngor wneud y gwaith ac adennill y costau oddi wrth yr ymgymerwr. Ni ddylid gadael unrhyw bridd/cerrig yn unman ar dir y fynwent gan ei bod yn bwysig cadw ein mynwentydd yn daclus a pharchu beddau eraill.
- 10 Tra bydd bedd yn agored mae'n angenrheidiol ei orchuddio'n ddigonol.
- 11 Ni ellir dal y Cyngor yn gyfrifol am unrhyw niwed a achosir gan drydydd parti.
- 12 Rhaid caniatáu o leiaf 2 awr rhwng pob angladd mewn mynwent.
- 13 Ni chaniateir agor bedd ar y Sul.
- 14 Bydd rhaid gosod gorchudd concriid ar yr arch ar ôl claddu cyn mewn llenwi'r beddrod a phridd.
- 15 Wrth agor bedd, dylid cadw'r pridd da (topsoil) a **thywyrch glaswellt** i un ochor, a dylid rhoi'r pridd da yn ôl ar wyneb y bedd wrth ei gau.
- 16 Ni chaniateir twmpath pridd o fwy na 5 modfedd o uchdwr ar ben fedd.
- 17 Wrth gau bedd, rhaid i'r torrwr beddau glirio'r rwbel sydd yn weddill allan o'r fynwent.

### C. GOSOD CERRIG BEDDI

- 1 Mae'n ofynnol i bob person sydd yn gweithio ar gofeb, boed yn trwsio neu osod, fod yn brofiadol a chael tystysgrif yswiriant ar gyfer y gwaith. Bydd angen caniatâd y Cyngor cyn symud neu osod carreg, drwy gysylltu gyda'r Clerc.
- 2 Ni chaniateir naddu na thrwsio cerrig y tu fewn i'r fynwent, a bydd rhaid cludo pob defnyddiau at feddau a chofadeilion i'r fynwent, a sicrhau'r beddau rhag niwed.
- 3 **Bydd yn rhaid anfon cynllun a disgrifiad o bob cofadail at y Clerc i'w hystyried gan y Cyngor.**
- 4 Ni chaniateir gosod unrhyw gofadail heb yn gyntaf i rybudd gael ei dderbyn gan y Cyngor, a **bydd angen 1 diwrnod o rybudd er mwyn trefnu agor giatiau'r Mynwentydd** drwy gysylltu â CHLERC CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI. **(Gweler Atodiad 4)**
- 5 Mesuriadau pob cofadail i fod dim mwy na 2'6" o uchder a 2'3" ar ei draws. **(Gweler Atodiad 1).**
- 6 **Mae'n ofynnol i rif y beddrod gael ei osod ar gefn y gofeb.**
- 7 Ni chaniateir gosod cofeb ar ddydd Sul nag ar ôl 4:00 o'r gloch yn y prynhawn.
- 8 Ni chaniateir gweithio ar gofeb tra bod angladd yn cymryd lle yn y fynwent.
- 9 Wrth ail-agor, bydd yn ofynnol i'r ymgymerwr drefnu symud carreg neu gofeb allan o'r fynwent.
- 10 **Dylai perchnogion y cofebion eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr da. Hysbysir y perchnogion (os ydynt yn wybyddus) pan fo angen atgyweirio cofeb, ac oni atgyweirir hwy o fewn amser penodedig, gall y Cyngor weithredu i wneud y cofebion yn ddiogel.**
- 11 **Ni fydd y Cyngor yn gyfrifol am ddifrod i unrhyw gofeb neu garreg fedd am unrhyw reswm.**
- 12 Bydd yn rhaid defnyddio 'spike' neu roden bwrpasol i angori carreg fedd, a rhaid anfon y manylion i'r Clerc. (rhif cofrestru)
- 13 Wrth osod carreg, rhaid i'r gosodwr glirio'r rwbel sydd yn weddill allan o'r fynwent. Rhaid gosod tywyrch glaswellt yn daclus ar y bedd ar ôl gosod carreg.

### CH. CYFFREDINOL

- 1 Ni chaniateir defnyddio chwynladdwr ond ar lwybrau'r fynwent yn unig, a'r Cyngor yn unig sydd a'r hawl i ddefnyddio chwynladdwr.
- 2 Cedwir Cofrestrau'r Fynwent gan y Clerc, a gellir eu gweld a chael copi ohonynt ar daliad o £15.00.**(Gweler Atodiad 5)**

- 3 Fe gedwir hawl gan y Cyngor i adolygu'r Rheolau a'r Taliadau fel bo'r angen. Gweithredir y Mynwentydd yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ogystal ag unrhyw Orchymyn a ddarperir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.
- 4 Ni ellir dal y Cyngor yn gyfrifol am unrhyw niwed a achosir gan drydydd parti.
- 5 Y mae'n rhaid i blant dan 12 mlwydd oed fod yng nghwmni oedolyn; a ni chaniateir cwn yn y fynwent ond cwn tywys.
- 6 Ni chaniateir gwneud gwaith o fath yn y byd yn y fynwent heb ganiatâd y Cyngor a hysbysu'r Clerc.
- 7 Diffinnir '**lleol**' fel unigolyn sydd wedi byw **yn barhaol** o fewn y dyffryn am gyfnod o 5 mlynedd neu fwy. Codir ffi claddu ar raddfa 'lleol' i rai sydd yn byw oddi fewn y gymuned yn bresennol, a'r rhai sydd WEDI byw yn y gymuned am o leiaf 5 mlynedd (gyda phrawf pendant). Mae'n hanfodol i deulu brofi cysylltiad lleol os nad yw'r cysylltiad hwnnw'n wybyddus i'r Cyngor a'r Cynghorwyr.
- 8 Dylai'r Clerc gysylltu â Chynghorydd o'r ward berthnasol, i gael hawl i fwrw ymlaen ac unrhyw gladdedigaeth i unigolyn o'r tu allan i'r gymuned sydd â chysylltiad lleol, er mwyn derbyn cadarnhad o'r cysylltiad lleol.
- 9 **Dylai PAWB fynd a pob ysbwriel adref gyda nhw yn dilyn ymweld â'r mynwentydd.**

(adolygwyd 12/07/2022)